

ASTUDIAETH ACHOS

ENW: EMILY CHURCH

**TEITL SWYDD: GWEITHIWR GRADDEDIG
MEWN GWEITHREDIADAU**

CYFLOGWR: DUNBIA CYMRU

**CYMWYSTERAU: BSC (ANRH) MENTER GWLEDIG A
RHEOLI TIR**

BETH MAE GWEITHIWR GRADDEDIG MEWN GWEITHREDIADAU YN EI WNEUD?

Fel gweithiwr graddedig, rwyf ar gynllun hyfforddi 2 - 3 mlynedd, lle mae Dunbia yn fy rhoi ymhob adran am nifer o wythnosau, i ddod i ddeall yr adran ei hun a sut mae'n cyfrannu at y cynnyrch terfynol.

SUT DDAETHOCH CHI I WNEUD Y SWYDD YMA?

I ddechrau roeddwn wedi holi aelod o staff ar stondin Dunbia yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru ynglŷn â swyddi gwag. Rwyf yn ymddiddori mewn Amaethyddiaeth a'r gadwyn fwyd, ac am fy mod yn dod o gefndir ffermio defaid, roedd Dunbia yn enw roeddwn wedi ei glywed yn aml. Gwnes gais am swydd wag, ac es drwy'r broses gyfweledau gam ac roeddwn yn ddigon ffodus i gael fy newis ar gyfer y rôl i Raddedigion.

PA GYNGOR FYDDECH CHI'N EI ROI I RYWUN SY'N YSTYRIED DEWIS YR YRFA YMA?

Peidiwch â bod ofn mynd at gwmnïau mewn sioeau a ffeiriau. Mae hyn yn dangos eich bod yn awyddus a bod gennych ddi-ddordeb. Mae'n ddiwydiant gwych am fod cymaint o amrywiaeth a chyfleoedd gwych.

BETH YW'R PETH GORAU AM EICH SWYDD?

Rwy'n teimlo mai'r peth gorau yw'r amrywiaeth o fewn y safle ar hyn o bryd. Mae pob diwrnod yn wahanol ac a fy mod yn symud rhwng adrannau'n aml, mae rhywbeth newydd i ymdrin ag o ac i ddysgu amdano drwy'r amser.

WNAETHOCH CHI BRYNU RHYWBETH ARBENNIG GYDA'CH CYFLOG CYNTAF?

Roedd yn rhan o flaendal a roddais ar gyfer prynu car.

gyrfaeodd
BLASUS
mewn bwyd a diod

CYMRU

Mae'n ddiwydiant gwych am fod cymaint o amrywiaeth a chyfleoedd gwych.



GWEITHREDIADAU
CYNHYRCHU

TASTYCAREERSWALES.ORG.UK